

Astudiaeth Achos: Swyddog Hyfforddi/Aseswr NVQ - Dan

Beth ydych chi'n ei wneud?

Dwi'n gweithio i gwmni bach annibynnol, o'r enw Charnwood Training Group. Dwi'n gweithio yn y maes, ac yn mynd i ble bynnag mae fy nghontractau yn mynd â fi. Fy ardaloedd penodedig yw Swydd Derby, Swydd Nottingham, Swydd Gaerlyr, a Lerpwl a Manceinion erbyn hyn hefyd.

Dwi'n ymweld â dysgwyr yn eu gweithleoedd bob tair neu bedair wythnos.

Mae gennyn ni academi hyfforddi hefyd, ac rydyn ni'n cynnig gwasanaeth ymgynghori.



Beth yw'ch cefndir?

Roeddwn i'n gweithio fel rheolwr cynorthwyol mewn gwesty a daeth i'r pwynt lle'r oeddwn i'n gweithio saith deg awr yr wythnos ac roeddwn i'n blino a doedd gen i ddim bywyd a dweud y gwir. Doeddwn i ddim yn gwybod beth oeddwn i eisiau ei wneud, felly porais drwy'r hysbysebion swyddi ym mhapur newydd 'The Caterer' ac anfonais fy CV at lwyth o gwmnïau. Daeth un ohonyn nhw - darparwr hyfforddiant - yn ôl ata i. Ar ôl y cyfweiliad, cefais gynnig y swydd, felly penderfynais roi cynnig arni.

Dechreuais fel aseswr dan hyfforddiant, a dysgu wrth weithio. Dechreuais gyda deuddeg o ddysgwyr, ac roeddwn yn cael fy monitro, fy nghysgodi ac yn cael fy mentora wrth weithio tuag at y cymhwyster asesu. Roeddwn yno am flwyddyn a hanner, cyn symud at fy nghyflogwr presennol.

Cyn hynny: ar ôl bod yn yr ysgol es i'r coleg a gwneud GNVQ mewn Lletygarwch, yna es i i goleg arlwygo a gwneud Diploma Cenedlaethol BTEC mewn Gwestai, Arlwygo a Gweithrediadau Sefydliadau.

Es i'r brifysgol a dechrau HND mewn Rheoli Lletygarwch, ond roedd yn rhy debyg i'r BTEC oeddwn i wedi ei wneud eisoes, felly newidiais i wneud BA mewn Rheoli Digwyddiadau. Tra roeddwn i'n gwneud hynny, roeddwn i'n gweithio yn y fasnach ar yr un pryd. Gweithiais mewn ambell dafarn deuluol, yna mewn bar yng nghanol y ddinas, ac yna cefais swydd fel rheolwr blaen y ty mewn bwyty. Ar ôl hynny, symudais i'r gwesty.

Pa nodweddion sydd eu hangen i fod yn llwyddiannus yn eich swydd chi?

Mae angen sgiliau cyfathrebu da arnoch ac mae'n rhaid ichi allu meithrin perthnasau gyda phobl. Ar ddiwedd y dydd, os nad oes gen i berthynas dda gyda fy nysgwyr, dydyn nhw ddim am gael y gorau o'r cymhwyster, a dydyn nhw ddim yn cael yr hyfforddiant gorau y gallaf i ei gynnig.

Mae'n rhaid ichi fod yn amyneddgar; weithiau mae gennych ddysgwyr sy'n gwybod popeth, ond sy'n ofnadwy o swil ac mae angen tynnu'r wybodaeth allan ohonynt.

Mae angen ichi ddeall sut mae gwahanol bobl yn ymddwyn. Os ydych chi'n dechrau trin eich disgyblion fel petaent yn yr ysgol, dydyn nhw ddim am fwynhau eu hunain. Eu cymhwyster nhw ydy o ar ddiwedd y dydd.

Mae llawer o waith papur ac mae angen delio â phethau'n newid yn aml, a threfnu eich gwaith o gwmpas hynny. Mae angen ichi fod yn hyblyg iawn, yn barod i newid ac yn drefnus.

Mae angen gwybodaeth eang arnoch o'r hyn rydych chi'n ei gynnig, fel eich bod yn gallu ateb cwestiynau'r dysgwyr. Mae llawer o bethau mae'n rhaid i chi eu cofio.

Pa swyddi eraill allech chi ei wneud gan ddefnyddio'r sgiliau o'r swydd hon?

Gallech fynd i ddysgu neu ddarlithio, mewn coleg neu brifysgol. Rydyn ni'n gwneud gwaith ymgynghorol, felly mae hwnnw'n faes arall y gallwn fynd iddo.

Pa newidiadau fydd yn y dyfodol?

Mae gwahanol fentrau hyfforddi a sgiliau yn cael eu gwthio, ac mae drysau wedi cael eu hagor er mwyn i bobl allu cymhwyso i lefel benodol. Mae llawer mwy o gyfleoedd dysgu yn ymddangos.

Dydy dysgu'n seiliedig ar waith ddim bob amser wedi bod ag enw da, ond mae'n gwella'n eithriadol. Dwi'n meddwl bod angen cyfle ar lawer o bobl i ganolbwyntio ar eu sgiliau gwanaf.

Beth yw heriau mwyaf eich swydd?

Gall gweithio fesul mis fod yn her. Ar ddechrau'r mis, gallaf weld fy holl ddysgwyr, profi eu bod yn dysgu ar bob ymweliad, yna mae'n rhaid imi asesu er mwyn sicrhau bod yr holl anghenion a'r holl safonau yn cael eu bodloni. Mae nifer o beli i'w jygo.

Rydych chi'n gweithio dan bwysau ac mae gennych lawer o dargedau i'w cyrraedd ac mae rhywun yn eich gwirio bob amser. Mae gwiriwr mewnl yn dod i fy arsylwi, ac yn gwneud yn siwr fy mod yn cyrraedd y safonau cywir a fy mod yn asesu'n gywir. Ar ddiwedd y dydd, arian y llywodraeth ydy o, arian y bobl rydyn ni'n ei wario, allwch chi ddim ei wastraffu.

Oes nifer o gyfleoedd i fynd i mewn i'r yrfa hon?

Mae cyfleoedd ar gael, ond mae'n rhaid i chi fod yn ofalus. Mae cwmnïau mawr yn dda ar gyfer dechrau arni a chymhwyso, ond o'm profiad i, rydych chi'n cynnig cynnyrch o ansawdd gwell wrth weithio i gwmni annibynnol llai.

Beth ydych chi'n ei hoffi am eich swydd?

Dwi'n hoffi bod pobl yn ymddiried ynof i. Dwi'n hoffi mai fi sy'n trefnu fy mis fy hun. Dwi'n cael cyfarfod gyda fy rheolwr bob mis, ac rydyn ni'n edrych ar fy holl ddysgwyr ac mae hi'n gwneud yn siwr fy mod i wedi gwneud bob dim. Ond yn y bôn, fy nghyfrifoldeb i yw trefnu fy niwrnod gwaith. Cyn belled â fy mod yn cyrraedd fy nhargedau - gan gynnwys rhai dwi'n eu gosod i mi fy hun - yna gallaf fod yn eithaf hyblyg.

Beth nad ydych chi'n ei hoffi am eich swydd?

Dwi dan bwysau, ond dwi'n hoffi hynny. Y pwysau yw'r hyn sy'n gwneud y swydd yn gyffrous, ond sydd hefyd yn rhoi cur pen i chi yn ystod y nos. Mae cymaint o waith paratoi i'w wneud, mwy na fyddai pobl yn ei feddwl. Mae'n rhaid i chi wneud yn siwr eich bod yn drefnus ac eich bod wedi paratoi popeth cyn pob ymweliad.

Beth yw'ch uchelgeisiau?

Efallai hoffwn fentro i wneud hyfforddiant adnoddau dynol; neu wneud hyfforddiant ar gyfer grwp bar neu westy, trefnu rhaglenni hyfforddi a chynnal cyrsiau. Dyna beth dwi'n meddwl yr hoffwn ei wneud.

Fyddwn i fyth yn mynd yn ôl i faes lletygarwch a gweithio i rywun arall. Byddai'n rhaid i mi fod yn berchen ar far neu fwyty fy hun.

Pa gyngor fyddwch chi'n ei rhoi i rywun sydd â diddordeb yn eich gyrfa chi?

Mae'n rhaid bod gennych chi ddiddordeb yn y gwaith, oherwydd mae'n rhaid ichi allu prosesu nifer o bethau gwahanol ar unwaith. Gall fod yn swydd anodd ei deall - rydych un ai'n ei deall neu dydych chi ddim.

Mae'n rhaid i chi fod yn realistig gyda'ch targedau, ac mae'n rhaid i chi fod yn drefnus iawn. Dydy hi ddim yn swydd naw tan bump.

Mae hi'n swydd gyda llawer o bwysau, felly mae'n rhaid ichi ei mwynhau. Os nad ydych chi wrth eich bodd yn y swydd, wnewch chi ddim ei deall. Mae angen ichi ei deall a gall hynny fod yn eithaf anodd. Mae llawer o derminoleg a chyfyngiadau; mae llawer i'w ddeall.

Os ydych eisiau mynd i faes hyfforddi mae'n rhaid i chi ei ddeall o'r gwaelod. Dyna ydw i'n ei wneud, ac mae hynny'n iawn gen i.

Dwi'n cael fy ngwerthfawrogi yn y swydd hon, ond yn fy swydd flaenorol dim ond rhif oeddwn i. Os ydych chi wedi gweithio i gwmnïau mawr gydol eich oes ac eich bod yn hapus i fod yn rhif yn unig, gweithiwch i'r cwmnïau mawr. Os nad ydych chi, ac eich bod eisiau gwneud gwahaniaeth, byddai'n well ichi weithio i gwmni llai.

Diwrnod ym mywyd

Y noson gynt, byddaf yn edrych yn fy nyddiadur er mwyn cadarnhau fy apwyntiadau ar gyfer y diwrnod canlynol. Byddaf yn diweddarau fy nghalendr ar-lein er mwyn i fy nghwmni wybod ble fydda' i. Efallai y byddaf yn ateb rhai e-byst hefyd.

Byddaf yn mynd ar ein cronfa ddata ar-lein; rydyn ni'n ei defnyddio i gofnodi popeth rydyn ni'n ei wneud gyda dysgwr. Gallaf hefyd weld a oes unrhyw nodiadau o'r swyddfa yno.

Y diwrnod canlynol, dwi'n gadael y ty am 9:30 i gynnal sesiwn gyflwyno. Mae hyn yn cynnwys cwrdd â dysgwr neu ddysgwyr newydd, er mwyn cael dod i'w hadnabod, a gwneud yn siwr eu bod yn deall mai eu rhaglen nhw ydy hi, ac y bydd angen iddyn nhw weithio'n galed.

Mewn sesiwn gyflwyno, rydyn ni hefyd yn gwirio pethau fel diogelwch tân a gwneud yn siwr bod yr amgylchedd yn ddiogel i'r dysgwr weithio, yn gyffredinol, ac i ni asesu ynddo.

Yna dwi'n cael gwybod gan y rheolwr a oes unrhyw beth yn benodol y maen nhw eisiau i'w gweithiwr/wyr ei ddysgu.

Byddaf yn gadael am un. Mae gen i ddysgwr arall wnes i ei gyflwyno fis diwethaf mewn tafarn yr ochr arall i'r dref. Yn ystod yr ymweliad hwn, rydyn ni'n dewis yr unedau perthnasol ac yn trafod yr hyn rydyn ni'n mynd i'w wneud.

Dwi'n gadael llyfr gwaith i'r dysgwr fynd drwyddo. Mae gen i ddysgwr arall yn yr un lleoliad, a dwi'n ei harsylwi hi, felly dwi'n ei gweld yn gweithio tu ôl i'r bar, ar y til, yn delio â chwsmeriaid, ac yn dilyn cyfreithiau trwyddedu ac iechyd a diogelwch.

Yna am bump o'r gloch, af ar hyd y draffordd i weld dysgwr sy'n gweithio mewn cegin mewn bwyty Eidalaid. Byddaf yn ei arsylwi yn paratoi bwyd.

Byddaf yn gorffen tua saith. Gan fy mod i wedi cymryd dau ddiwrnod o wyliau'r wythnos hon, dwi'n gweithio dyddiau hir. Dyna sut mae hi weithiau.